Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# LLAIS RHANBARTH CASTELL-NEDD PORT TALBOT AC ABERTAWE

# GWASANAETHAU DEMENTIA: EICH BARN



Profiadau pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr

# FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.


Am Llais .... 4
Cefndir .... 6
Yr hyn a wnaethom .... 7
Yr hyn a glywsom .... 10
Sylwadau negyddol .... 13
Ymwybyddiaeth ddiwylliannol .... 14
Themau allweddol .... 15
Diolch .... 18
Adborth .... 23
Manylion cyswllt .... 23

# AM LLAIS

Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.




Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.

Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith, rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "y claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.

# CEFNDIR

## DEMENTIA FEL ACHOS SY'N CYNYDDU

Dementia yw un o'r achosion anabledd sy'n tyfu gyflymaf ar draws y byd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2021).

**Rydym yn adeiladu ar waith blaenorol gan y Cyngor Iechyd Cymuned a ganfu fod gwasanaethau dementia yn bwysig i bobl sy'n byw yn yr ardal.**

Mae fel arfer yn effeithio ar bobl dros 65 oed, ac mae 1 o bob 6 o bobl dros 85 oed yn byw gyda dementia. (Cymdeithas Alzheimer's)

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 79,017 o bobl dros 65 oed yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Dementia 2018-2022 oherwydd wrth i bobl fyw'n hirach mae'r galw am wasanaethau dementia yn cynyddu. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol nodi iechyd a gofal cymdeithasol eu poblogaeth a chyhoeddi hyn. Gelwir hyn yn Asesiad Anghenion Poblogaeth. Mae'r asesiad ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn dangos bod cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhagweld cynnydd o 65% yn nifer y bobl â dementia sy'n byw yn ardal Gorllewin Morgannwg erbyn 2040. Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd am nifer y bobl sy'n byw gyda diagnosis dementia yn yr ardal ar hyn o bryd, ond nid yw'r data hwn ar gael eto.

## ETHNIGRWYDD A DEMENTIA

Canfu astudiaeth gan Goleg Prifysgol Llundain fod cyfraddau dementia 22% yn uwch ymhlith pobl Ddu yn y DU o'u cymharu â'r sawl sy'n Wyn a bod cleifion dementia Du a De Asiaidd yn marw'n iau ac yn gynt ar ôl cael diagnosis.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe boblogaeth Wyn yn bennaf. Mae pobl Ddu ac Asiaidd Lleiafrifol (BAME) yn cyfrif am lai na

3% o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot a 9% o boblogaeth Abertawe. Roedd ein prosiect, felly, yn ceisio siarad â phobl o'r cymunedau hyn am eu profiadau.

Roeddem am glywed gan gynifer ohonoch â phosibl am yr hyn sy'n gweithio'n dda, beth sydd angen ei newid, a'ch syniadau am wasanaethau newydd y gellid eu cyflwyno i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia yn ein cymuned.

# YR HYN A WNAETHOM

Dros 8 wythnos, fe wnaethom ymweld ag 17 o leoliadau gwahanol i siarad â phobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr, a'u hanwyliaid.

**Fe wnaethom ymweld â 17 o leoliadau gwahanol i siarad â phobl sy'n byw gyda dementia. Fe wnaethom hefyd lansio arolwg ar-lein ac ar bapur i gasglu eich barn a'ch syniadau.**

Ymwelwyd ag 1 gwasanaeth dydd a ddarperir gan Awdurdod Lleol, 2 gartref gofal a nyrsio awdurdod lleol, 2 wasanaeth GIG, 1 cartref nyrsio preifat, ac 11 grŵp cymunedol trydydd sector. Roedd dau o'r lleoliadau hyn yn wasanaethau sy'n cefnogi pobl o gymunedau BAME yn rheolaidd.

Fe wnaethom lansio arolwg trwy ein tudalennau Facebook cenedlaethol a rhanbarthol a rhannu codau QR gyda'r holl gartrefi preswyl sy'n cynnig gofal dementia yn rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Gwnaethom ofyn i gartrefi gofal gyfeirio eu defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd a oedd yn ymweld â'n harolwg ac i gysylltu â ni os oedd pobl am rannu eu straeon mewn ffordd arall.

Roedd yn amlwg bod yn well gan bobl siarad â ni ac adrodd eu stori yn hytrach na chwblhau arolygon.

Yn y lleoliadau yr ymwelwyd â hwy, gwnaethom gyfarfod â 244 o bobl sy'n byw gyda dementia a/neu eu gofalwyr.  O'r bobl hynny, dewisodd 98 rannu eu straeon gyda ni.



Cawsom 3 ymateb i’n harolwg ar-lein, a 3 drwy ein harolwg papur, a chwblhawyd un ohonynt yn Gymraeg.

O ystyried oedran y bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ddementia, y mae ymchwil yn dweud wrthym eu bod yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau digidol, roedd hyn i'w ddisgwyl. Wrth ymweld â grwpiau mwy, gwnaethom yn siŵr bod staff neu wirfoddolwyr ychwanegol ar gael i roi cymaint o gyfleoedd â phosibl i glywed straeon yn uniongyrchol gan bobl.



Wrth ymweld â grwpiau cymunedol, gwelsom fod pobl yn siarad yn ehangach am eu profiadau iechyd a gofal cymdeithasol, nid dim ond am

y gwasanaeth yr oeddem yn ymweld ag ef.  Helpodd hyn ni i greu darlun mwy cynhwysfawr o'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl sy'n byw gyda dementia.




Fe wnaethom hefyd gysylltu â sefydliadau lleol sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia i ddeall eu gwasanaethau yn well ac i ofyn iddynt annog pobl i siarad â Llais i ddweud eu dweud.  Roedd hyn yn cynnwys: staff arweiniol nyrsio dementia, rheolwyr cartrefi gofal a chartrefi dydd, hyrwyddwyr dementia yn y sector gwirfoddol, darparwyr gwasanaeth y GIG, Canolfannau Gofalwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe, y CVS, therapyddion galwedigaethol, a Chydlynwyr Ardaloedd Lleol.

## Y SYLWADAU CADARNHAOL

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fawr.

**"Rwy'n caru pawb yma.  Wna i ddim clywed gair drwg gan neb amdanyn nhw... maen nhw fel ffrindiau i fi."**

**"dymunol a sylwgar gydag agwedd siriol."**

(Sylwadau am staff yn Nhŷ Waunarlwydd)

**"proffesiynol, mewn i wnifform, fe wnaethon nhw anrhydedd u fy mam...wedi 'u hyfford di'n dda, yn barod ar gyfer eu swydd, roedd eu gofal yn rhagorol."**

(Tîm gofalwyr Cyngor Abertawe)

**"Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i'n ei wneud heb y lle hwn."**

Canolfan Ddydd St John

**"Cefn Coed – hollol wych!...gofalwyr gwych, mor garedig, mor hamddenol gyda nhw."**

**"yn werth y byd."**

**"Maen nhw'n fy nghadw i fynd."**

Yr adborth mwyaf cyffredin a gawsom oedd pwysigrwydd grwpiau cymunedol, rhai wedi'u hariannu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, disgrifiwyd pob un o'r grwpiau yr ymwelwyd â nhw fel ei fod "yn werth y byd".

Roedd trigolion Castell-nedd Port Talbot yn arbennig o gadarnhaol am Atgofion Chwaraeon y Gweilch yn y Gymuned a'r Sunflower Café. Roeddent yn falch o glywed am agoriad yr Hybiau Dementia yn y rhanbarth.

Cafwyd canmoliaeth uchel gan drigolion Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i'r timau Therapi Galwedigaethol – **"mae'r Therapyddion Galwedigaethol yno** (Canolfan Adnoddau Port Talbot) **yn mynd gam ymhellach."**

**"Mae gwasanaeth WESTFA yn ardderchog. Rhoddir gwasanaethau meddyg, nyrs, seicolegydd. Therapydd iaith a lleferydd. Cyfeirio at wasanaethau cymorth."**

Canmolodd nifer o bobl Garngoch, a dweud eu bod wedi profi **gofal "rhagorol"** a dweud eu bod yn **"gymwynasgar iawn."** Disgrifiodd rhywun arall **"wasanaeth sylwgar iawn."**

# Y SYLWADAU NEGYDDOL

Aelod o deulu unigolyn sy'n cael cymorth gan Ofal Cymdeithasol Abertawe.

**"Yn gyffredinol mae'r gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn wael iawn...maen nhw eisiau gwneud cyn lleied â phosib i chi. Rydw i wedi gorfod ymladd am bopeth...mae pob galwad ffôn yn frwydr ac mae'n rhaid i chi**

Codwyd sawl pryder am brofiadau pobl o ofal cymdeithasol yn Abertawe. Nodwyd y themâu canlynol gan 22 o'r bobl y buom yn siarad â nhw:

- yr angen am gyfathrebu cyson a chryfach
- Nid yw pobl bob amser yn gwybod pwy yw eu gweithiwr cymdeithasol
- arosiadau sylweddol ar gyfer dyraniad
- diffyg gofal seibiant
- barn teulu a pherthynas agosaf ddim yn cael eu hystyried.
- diffyg parhad mewn pecynnau gofal yn dilyn egwyl/aros yn yr ysbyty
- Pobl yn teimlo bod yn rhaid iddynt frwydro i gael gwasanaethau
- Pobl yn teimlo y dylai'r cymorth sydd ei angen arnynt fod yn brydlon ac yn hyblyg

# YMWYBYDDIAETH DDIWYLLIANNOL

Un o'r materion allweddol a godwyd ar ddechrau'r prosiect oedd effaith dementia ar bobl Ddu a De Asiaidd. Dywedodd llawer o staff yn y lleoliadau y gwnaethom ymweld â nhw mai ychydig iawn o bobl o dras BAME oedd ganddynt yn defnyddio gwasanaethau dementia.

Mae maint y grŵp o bobl y buom yn siarad â nhw yn gyfyngedig. Mae'r sylwadau a gawsom yn awgrymu bod angen gwneud trefniadau yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe i bobl allu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Mae hefyd angen cryfhau cymhwysedd diwylliannol staff wrth ddarparu gofal i grwpiau ethnig amrywiol.

Soniodd aelod o deulu Prydeinig/Bangladeshaidd am orfod mynychu apwyntiadau i gyfieithu a phwysleisio'r angen am fwy o staff dwyieithog yn y gwasanaethau gofal.

Clywsom gan berson Du Jamaicaidd ei fod wedi ceisio cymorth gyda chyfathrebu gan sefydliad BAME allanol. Roedd yn teimlo nad oedd y gweithiwr cymdeithasol yn deall ei ddiwylliant.

Cydnabyddir na chyrhaeddodd y prosiect hwn lawer iawn o bobl o dras Du na De Asia. Mae Llais wedi dechrau datblygu perthynas â'r sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau BAME. Bydd prosiectau yn y dyfodol yn trafod gyda grwpiau cymunedol sut y gallwn newid ein ffyrdd o weithio i sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu cynrychioli'n well.

# THEMÂU ALLWEDDOL

Mae'r straeon a rannwyd gan bobl yn y prosiect yn ymwneud yn bennaf â rhai themâu allweddol:

- Cyfathrebu
- Mynediad i wasanaethau a diffyg gwasanaethau
- Gweld y gofal a arweinir gan yr unigolyn/unigolyn
- Diffyg gwybodaeth/gwybodaeth ddryslyd
- Diffyg parhad

Mae llawer o feysydd o arferion da wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain wedi cael eu bwydo'n ôl i'r gwasanaethau. Rhestrir y prif feysydd pryder isod:

## Cyfathrebu

Mynegodd llawer o bobl bryderon nad oedd aelodau'r teulu'n cael eu holi am eu barn nac yn cael eu cynnwys mewn asesiadau na phenderfyniadau. Soniwyd hefyd, pan wnaethant gwyno, na chawsant adborth ar yr hyn a wnaethpwyd yn ei gylch. Yn ogystal, soniodd pobl am orfod aros yn hir iawn i gael gweithiwr cymdeithasol a'u bod yn wynebu anawsterau wrth gael gafael ar y timau. Dywedodd pobl wrthym hefyd am yr angen i weithwyr proffesiynol gael sgyrsiau agored â nhw am eu dyfodol, a gofal diwedd oes.

## Mynediad at wasanaethau

Roedd llawer o bobl y siaradom â nhw yn ystyried bod angen gwasanaethau gofal seibiant ac eistedd gyda phobl er mwyn atal anwyliaid rhag mynd i ofal preswyl. Soniodd gofalwyr am frwydro i gael gwasanaethau, a dywedodd rai eu bod wedi aros am dros flwyddyn ar ôl cael gwybod y byddai aelod o'u teulu yn cael gofal seibiant.

## Gweld yr unigolyn

Pan siaradom â phobl sy'n byw gyda dementia a oedd yn cael cymorth gan dimau o ofalwyr neu mewn cartrefi preswyl a nyrsio, roeddent yn aml yn dweud wrthym sut y collwyd eu diddordebau unigol a'u gweithgareddau cymdeithasol.  Soniodd llawer am y ffaith nad oedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael a oedd o ddiddordeb iddynt, nad oeddent yn gallu mynd ar deithiau cerdded yr oeddent yn eu mwynhau nac i gaffi gyda ffrindiau. Clywsom fod y rhai sy'n gofalu am bobl â dementia yn teimlo'n gryf bod eu hanwyliaid yn dal i fod yr un person, er eu bod wedi newid, a'i bod yn bwysig i wasanaethau gofio hyn o ran y cymorth a'r gefnogaeth y maent yn eu cynnig.

## Gwybodaeth

Dywedodd llawer o bobl wrthym y dylai fod un lle i bobl fynd iddo am gymorth gyda phopeth yn ymwneud â gofal dementia. Dywedodd y gofalwyr y buom yn siarad â nhw eu bod yn aml yn teimlo "wedi eu llethu," "ar goll," ac "yn unig." Maen nhw eisiau canllawiau syml i wybod pa wasanaethau i gysylltu â nhw a phryd, gan gynnwys yn y GIG, ym maes gofal cymdeithasol, a'r gymuned. Maent hefyd eisiau bod yn ymwybodol o'r meini prawf ar gyfer y gwasanaethau hyn a phwy yw'r prif dimau sy'n gallu rhoi cyngor iddynt a'u harwain. Gwnaed llawer o sylwadau am yr angen am gymorth i ddeall agweddau ariannol gofal hefyd.

## Parhad

Clywsom fod pecynnau gofal yn aml yn dod i ben pan fydd rhywun yn mynd i'r ysbyty, ar ofal seibiant, neu'n mynd ar wyliau gyda'r teulu. Mae hyn yn golygu gorfod mynd drwy'r broses o ddod o hyd i ofalwyr newydd eto. Roedd y dewisiadau cyfyngedig a'r amser y mae'n ei gymryd i ddod o hyd i ofalwyr newydd yn gwneud i'r bobl y siaradon ni â nhw deimlo efallai na fydden nhw'n gallu parhau i ofalu am eu hanwyliaid gartref. Roedd y sefyllfa hon yn achosi llawer o straen i'r gofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.  Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw wir yn dymuno y byddai ffeiliau yn cael eu darllen gan weithwyr

proffesiynol cyn eu cyfarfod er mwyn osgoi gorfod ailadrodd eu stori i lawer o wahanol bobl.

Gwnaeth Llais Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yr argymhellion canlynol – neu "sylwadau" – ar eich rhan yn dilyn y prosiect hwn. Pan fyddwn yn cael ymateb gan y gwasanaethau hyn, byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi gwybod i chi drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, gwefan a thrwy roi gwybod i arweinwyr y gwasanaeth lle daethom i siarad â chi.

## HOLL DDARPARWYR

### Sylw 1: Un man cyswllt er gwybodaeth

Dywedwch wrthym a allwch weithio gyda'ch gilydd i greu neu ddatblygu gwasanaeth sy'n bodoli eisoes, a ariennir ar y cyd, sy'n darparu cyngor a chymorth ar bob agwedd ar fyw gyda dementia a darparu gofal, gan gynnwys llesiant emosiynol i ofalwyr a chyngor ariannol. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn gweithio gyda'ch gilydd i ddarparu llwybr clir o'r diagnosis o hyn ymlaen.

### Sylw 2: Hyrwyddo'r unigolyn mewn gofal a chymorth

Dywedwch wrthym beth yw eich cynlluniau i wneud yn siŵr, hyd yn oed pan fyddwch mewn arosiadau a threfniadau dros dro, y bydd diddordebau unigol y defnyddiwr gwasanaeth yn rhan weithredol o ddarparu gweithgareddau, gofal a chymorth.

### Sylw 3: Hyrwyddo iaith a diwylliant wrth ddarparu gwasanaethau

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod yr holl staff sy'n darparu gwasanaethau yn datblygu eu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau ac yn darparu gwasanaethau cyfieithu fel bod pawb yn cael mynediad teg at wasanaethau.

## BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL

### Sylw 4: Ariannu sefydliadau trydydd sector

Dywedwch wrthym pa gynlluniau sy'n bodoli i sicrhau bod gwasanaethau cymorth digonol yn y gymuned a sut y gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gefnogi unrhyw grwpiau cymorth presennol.

GOFAL CYMDEITHASOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**Sylw 5: Ymgynghori'n briodol ag aelodau'r teulu**

Dywedwch wrthym sut y bydd gweithwyr cymdeithasol yn sicrhau y bydd aelodau o'r teulu a'r rhai sy'n derbyn gofal yn cael eu hysbysu'n llawn, eu barn yn cael ei hystyried mewn asesiadau a chynlluniau a chanlyniadau unrhyw anghytundebau neu gwynion yn cael eu cyfleu â theuluoedd.

**Sylw 6: Cynyddu darpariaeth gofal seibiant a gwasanaethau eistedd gyda phobl**

Dywedwch wrthym sut mae cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau gofal seibiant ac eistedd gyda phobl yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym a sut y byddwch yn sicrhau bod y bobl sydd angen y gwasanaethau hyn yn eu derbyn.

## GOFAL CYMDEITHASOL ABERTAWE

**Sylw 7: Dyrannu gweithwyr cymdeithasol yn brydlon**

Dywedwch wrthym beth yw'r amserlenni presennol y cytunwyd arnynt ar gyfer dyrannu gweithiwr cymdeithasol, y camau a gymerir i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyflym a'r trefniadau ar gyfer dewisiadau eraill lle nad yw hyn yn bosibl.

**Sylw 8: Argaeledd a pharhad gofal**

Dywedwch wrthym beth yw'r trefniadau presennol ar gyfer cyflenwi dyletswyddau, a sut y bydd gofal cymdeithasol yn sicrhau bod y rhai sydd angen gwasanaeth yn parhau i dderbyn y gwasanaethau cywir gan weithwyr cymdeithasol a darparwyr gofal, hyd yn oed ar ôl iddynt gael gofal seibiant, gwyliau neu arosiadau yn yr ysbyty.

**Sylw 9: Cynyddu darpariaeth gofal seibiant a gwasanaethau eistedd gyda phobl**

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau gofal seibiant ac eistedd gyda phobl yn cael eu cyflwyno'n gyflym a bod y rhai sydd angen y gwasanaethau hyn yn eu derbyn.

**Sylw 10: Cynllunio ar gyfer gofal preswyl**

Dywedwch wrthym beth yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio ar gyfer gofal preswyl ac a oes angen ystyried pa mor aml y mae anghenion pobl yn cael eu hailasesu i sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau cywir ar yr adeg iawn.

## BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAWE (GIG)

### Sylw 11: Ailagor ysbyty dydd Tonna

Dywedwch wrthym os gellir ailagor y gwasanaeth hwn ac os na all hyn ddigwydd, beth yw'r dewisiadau eraill y gellir eu creu ar gyfer darpariaeth gofal dydd.

### Sylw 12: Creu Arweinydd Dementia ar gyfer BIPBA

Dywedwch wrthym a ellir creu'r rôl hon i gydnabod natur unigryw dementia o fewn gwasanaethau a'r posibilrwydd y bydd hyfforddiant staff a datblygu gwasanaethau yn dod o dan arweiniad yr unigolyn hwn.

### Sylw 13: Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys sy'n deall dementia

Dywedwch wrthym os gellir brysbennu gofal ar gyfer y rhai â dementia yn brydlon yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac a ellir creu amgylchedd aros sy'n deall dementia.

### Sylw 14: Darparu diagnosis yn bersonol

Dywedwch wrthym a all y GIG sicrhau bod diagnosis yn cael ei roi yn bersonol i gleifion ac a ellir darparu hyfforddiant i feddygon teulu ynghylch hyn.

### Sylw 15: Cynllunio ar gyfer gofal diwedd oes

Dywedwch wrthym sut y bydd y GIG yn gweithio gyda'r rhai â dementia a'u teuluoedd i gynllunio gofal diwedd oes mewn modd sensitif yn gynnar yn y broses.

# DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i rannu eu syniadau.

Diolch hefyd i'r rhai a gefnogodd y prosiect hwn a rhoi gwybod i eraill amdano fel y gallem gyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Gobeithiwn y bydd yr adborth y mae pobl wedi'i rannu yn dylanwadu ar wasanaethau i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda – a chymryd camau lle mae angen cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

## ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

## MANYLION CYSWLLT

LLAIS CASTELL-NEDD RHANBARTH PORT TALBOT AC ABERTAWE,
CANOLFAN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CIMLA
CASTELL-NEDD
SA11 3SU

RHIF FFÔN: 01639 683490
CYFEIRIAD E-BOST: NPTANDSWANSEA.ENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG
FACEBOOK: @LLAISNPTANDSWANSEA
TWITTER: LLAIS_CYMRU